





Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Y Peiriant Jôcs



Roderick Hunt
Alex Brychta




Roedd pawb ar y buarth.

“Mae gen i jôc dda,” meddai Wilff. “Beth sydd yn ddu, gwyn, du a gwyn?”

“Dydw i ddim yn gwybod,” meddai Cad.

“Pengwin yn rhoio i lawr allt!” meddai Wilff.



“Mae gen innau jôc,” meddai Anneena.
“Beth wnaeth y sgerbwd pan welodd yr ysbyrd?”
“Beth wnaeth y sgerbwd pan welodd yr
ysbyrd?” gofynnodd Dids.
“Crynodd yn ei *esgyrn!*” meddai Anneena.

“Amser dod i mewn!” galwodd Mrs Jones.
“Pawb mewn rhes yn ddistaw.”
“Beth ddywedodd y capten llong wrth ei
griw?” meddai Nadim. “Rydym i gyd yn yr
un cwch!”
“Dyna jôc wael!” meddai Cad.



“ I mewn â chi, y clebrynnod,” meddai Mrs Jones. “Chlywsoch chi mo'r chwiban?”

“ Mae'n ddrwg gen i, Mrs Jones,” meddai Wilff. “Roedden ni'n dweud jôcs.”

“Wel, rhowch y gorau iddi,” meddai Mrs Jones.



“Mrs Jones!” meddai Cad. “Beth mae eliffant yn ei wneud ar draffordd?”

“Dim rŵan, Cad,” meddai Mrs Jones. “Cei ddweud wrtha i wedyn. I mewn â chi, bawb.”



“Cad,” sibrydodd Nadim. “Beth *mae* eliffant yn ei wneud ar draffordd?”

“Tua dwy filltir yr awr!” meddai Cad.

“Cad! Nadim!” meddai Mrs Jones. “Ewch i mewn yn ddistaw!”



Roedd hi'n amser mynd adref.

“Da iawn chi!” meddai Mrs Jones.

“Rydych chi wedi gweithio'n galed heddiw. Rŵan, mae'n amser tacluso.”



“Mrs Jones!” galwodd Anneena. “Ydych chi eisiau clywed un o jôcs Nadim?”

“O’r gorau, dim ond un,” meddai Mrs Jones. “Rydw i eisiau cyrraedd gartref cyn iddi nosi.”

“Pam fod gwartheg yn gwisgo clychau?” gofynnodd Anneena.

“Dydw i ddim yn gwybod,” meddai Mrs Jones. “Pam fod gwartheg yn gwisgo clychau?”

“Am nad ydy eu cyrn yn canu!” meddai Nadim.



Clapiodd Mrs Jones.

“Rydw i eisiau gofyn cwestiwn i chi,” meddai.

“Pwy sydd wedi clywed am *Ddiwrnod Helpu'r Plant?*”

“Mae diwrnod arbennig,” meddai Dids.


“Mae pobl yn codi arian i helpu plant,” meddai Wilff.



“Sut allwn ni godi arian ar gyfer *Diwrnod Helpu'r Plant?*” gofynnodd Mrs Jones.

“Bydd yn rhaid i ni feddwl yn galed,” meddai Anneena.

“Cawn drafod eich syniadau yfory,” meddai Mrs Jones.



Roedd pawb yn nhŷ Cad a Dids.

“Does gen i ddim syniad,” meddai Dids.

“Na finnau,” meddai Anneena.

“Pa syniadau sydd gennym ni hyd yn hyn?”
gofynnodd Cad. “Darllen y rhestr, Nadim.”

Darllenodd Nadim y rhestr. “Syniadau ar
gyfer *Diwrnod Helpu'r Plant*. Golchi ceir, sêl
deganau.”

“Dim ond dau syniad ydy hynny!” meddai
Anneena.

“Wel, dim ond dau syniad sydd gennym ni,”
meddai Wilff.



“Dydw i ddim yn meddwl fod golchi ceir yn syniad da,” meddai Dids. “Dydw i ddim yn meddwl y byddai Mrs Jones yn fodlon.”

“A gwerthais fy hen deganau yn y sêl ddiwethaf,” meddai Wilff.



Yna cafodd Nadim syniad da.


“Beth am beiriant jôcs?” meddai. Eglurodd ei syniad wrth bawb. Roedd pawb yn gyffrous.

“Alla i ddim aros i ddweud wrth Mrs Jones,” meddai Dids.



Drannoeth, roedden nhw yn ôl yn yr ysgol.
“Mrs Jones!” galwodd Anneena. “Rydym
wedi cael syniad ar gyfer *Helpu’r Plant!*”
“Mae’n rhaid ei fod yn un da,” meddai
Mrs Jones. “Rydych chi i gyd wedi cyffroi.”

Gwrandawodd Mrs Jones ar eu syniad.
“Peiriant jôcs ydy o!” meddai Cad.
“Rydym yn ysgrifennu jôcs ar ddarnau o
bapur,” meddai Dids. “Yna, rhown y jôcs
mewn bocs.”
“Y bocs fydd y peiriant jôcs,” meddai Wilff.



“Mae'n syniad ardderchog!” meddai Anneena. “Caiff pawb dalu am jôc!”

“Byddan nhw'n rhoi arian i ni,” meddai Wilff, “a phrynu jôc o’r bocs.”



“Rydw i'n meddwl ei fod yn syniad hyfryd,” meddai Mrs Jones. “Ond mae un broblem.”

“Beth ydy hi?” gofynnodd pawb.

“Mae angen tomen o jôcs arnoch chi,” meddai Mrs Jones.



Roedd y peiriant jôcs yn barod.

“Mae'n wych!” meddai Dids. “Edrychwch! Rydw i wedi gorffen y poster.”

“Does dim yr un fath,” darllenodd Wilff.
“Â chwerthin iach!”



“Rydym wedi rhoi'r jôcs ar y cyfrifiadur ac rydym yn gallu eu hargraffu rŵan,” meddai Nadim. “A dyma'r nesaf: Beth ddysgodd y ceffyl mewn gwern mathemateg?”

“Dysgodd ei stablau!” chwarddodd Anneena.



“Sawl jôc sydd gennym ni?” gofynnodd Wilff.

“Pedwar deg naw,” meddai Nadim.

“Byddwn yn hoffi cael rhagor.”

“Dyma un arall i chi,” meddai Mrs Jones.

“Beth gyda phedair coes all hedfan?”

“Dydyn ni ddim yn gwybod!” meddai pawb. “Beth gyda phedair coes all hedfan?”

“Dau aderyn!” meddai Mrs Jones.
Chwarddodd pawb.



Aethant â'r peiriant jôcs i'r ganolfan siopa.
“Dewch yn llu!” gwaeddodd pawb.
“Cefnogwch y plant! Cewch jôc am ddim llai
na 50c!”



Daeth dyn i brynu jôc.
“Mae wedi talu punt!” gwaeddodd Dids.
“Diolch yn fawr iawn.”
Roedd y dyn eisiau i bawb ohonyn nhw
ddweud y jôc. Felly dywedodd pawb y jôc
gyda'i gilydd.



“Beth sydd gydag un droed yn unig?”
meddai pawb.

“Dydw i ddim yn gwybod,” meddai’r dyn.
“Beth sydd gydag un droed yn unig?”

“Coes!” medden nhw.
Chwarddodd pawb.



“Mae gen i newyddion da,” meddai Mrs
Jones. “Mae’r faeres wrth ei bodd gyda’r
peiriant jôcs! Mae hi eisiau prynu'r jôcs i gyd!
Dyfalwch faint mae hi’n fodlon ei dalu am
bob jôc!”



“Does gennym ni ddim syniad,” meddai pawb. “Faint mae hi’n fodlon ei dalu?”

“Dwy bunt!” meddai Mrs Jones.

“Pum deg jôc am ddwy bunt yr un!” meddai Nadim. “Dyna ganpunt!”



“Ond rydym ni wedi gwerthu ugain jôc yn barod,” meddai Wilff. “Dim ond tri deg sydd ar ôl.”

“Rydw i wedi bod yn rhoi’r jôcs yn ôl,” meddai Nadim. “Mae pum deg jôc ar ôl yno.”



“Hwrê i Nadim!” meddai Anneena.
“Roedd hynny’n syniad ardderchog!”
“A hwrê i’r peiriant jôcs!” meddai Mrs
Jones.



“Rydw i wedi meddwl am jôc arall,”
meddai Nadim. “Beth yw hoff gêm
crocodeil?”

“Dydyn ni ddim yn gwybod,” meddai
pawb. “Beth yw hoff gêm crocodeil?”



“Snap!” meddai Nadim. Ochneidiodd pawb.



Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 7
Rhagor o Storiâu B

Y Peiriant Jôcs

Mae dosbarth Mrs Jones yn cael
syniad ardderchog i godi arian at
Ddiwrnod Helpu'r Plant.



Cam 6 Rhagor o Storiâu B

Cynllun Arbennig Dad
Ynys y Drych
Paid â Bod yn Wirion

Cam 7 Rhagor o Storiâu B

Hanes y Patrwm Helyg
Y Peiriant Jôcs
Antur y Llong Danfor

Addasiad Cymraeg gan
Llinos Griffin

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 2003
© Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2006
© Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-840-9



9 780861 748402 >

www.drakeeducational.com

DRAKE

Argraffwyd yng Nghymru